Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhentu Cartrefi: Newidiadau i ddeddfau tai

## Canllaw i denantiaid



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Beth mae Rhentu Cartrefi yn ei olygu i Denantiaid a Thrwyddedai**'.

**Chwefror 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r geiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 12**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â::

**Gwefan:** llyw.cymru/rhentu-cartrefi-mae-cyfraith-tai-yn-newid

**E-bost:** RentingHomes@gov.wales

**Ffôn:** 03000604400

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma........ 2**

**Cyflwyniad........ 4**

**Pa newidiadau sydd yn mynd i ddigwydd........ 5**

**Newidiadau eraill i ddeddfau tai........ 8**

**Geiriau anodd........ 12**

# Cyflwyniad




Mae’r rheolau am rentu cartref yn newid yng Nghymru.




Fe fydd y **ddeddf Rhentu Cartrefi** yn ei gwneud yn fwy syml i rentu cartref.



Fe fydd y ddeddf newydd yn ei gwneud yn fwy clir beth maen rhaid i chi ei wneud a beth dydych chi ddim i fod i’w wneud tra’n byw yn eich cartref.




Mae’r canllaw yma ar gyfer pobl sydd yn rhentu cartref gan landlord neu asiant gosod tai.

# Pa newidiadau sydd yn mynd i ddigwydd

**O dan y ddeddf newydd:**




- fe fyddwch chi'n cael eich galw yn **Ddeiliad Contract** (nid tenant).
- fe fyddwch chi'n cael **Contract Meddiannaeth** (oedd yn cael ei alw yn gytundeb tenantiaeth).



Mae **contract meddiannaeth** rhwng y landlord sydd yn berchen ar y fflat neu'r tŷ a chi, deiliad y contract – y person sydd yn ei rentu.

## Am Gontractau Meddiannaeth

Y 2 fath o **Gontract Meddiannaeth** ydy:




**Contract diogel-** os ydych chi'n rhentu eich cartref gan eich cyngor lleol neu gymdeithas tai (Landlordiaid Cymunedol).



**Contract safonol** – os ydych chi'n rhentu eich cartref gan landlord preifat.

Ond mae'r contract safonol yn gallu cael ei ddefnyddio hefyd gan landlordiaid cymunedol ar gyfer rhai mathau o dai. Er enghraifft, ar gyfer tai gyda chymorth (edrychwch ar yr adran 'tai gyda chymorth' yn nes ymlaen i gael rhagor o wybodaeth).

# Telerau Contractau Meddiannaeth



Rhaid i'ch landlord roi eich Contract Meddiannaeth i chi mewn ysgrifen.



Fe ddylai'r contract ddweud beth rydych chi'n gallu ei wneud a beth dydych chi ddim yn gallu ei wneud a beth mae eich landlord yn aglu ei wneud ac yn methu ei wneud.

Fe ddylai'r **contract** yma gynnwys:




- Enwau pwy sydd yn rhentu a chyfeiriad yr eiddo sydd yn cael ei rentu.



- Hawliau a chyfrifoldebau. Er enghraifft, cyfrifoldeb y landlord ydy trwsio pethau yn y cartref.



- Pethau o ddydd i ddydd. Er enghraifft, dweud wrth y landlord os nad oes neb yn mynd i fod yn y cartref am 4 wythnos neu ragor.




- Gwybodaeth arall. Er enghraifft, pethau fel ydych chi'n cael cadw anifeiliaid anwes neu beidio.



Mae'r contract yn gallu bod ar bapur neu ei e-bostio ar-lein, yn dibynnu beth rydych chi **deiliad y contract** yn ei ddewis.



Fe ddylech chi lofnodi'r contract os ydych chi'n hapus gyda phopeth mae'n ei ddweud.

# Newidiadau eraill i ddeddfau tai



Mae newidiadau pwysig i'r deddfau tai, ac mae hyn yn meddwl:

## Gwneud y cartref yn ffit i fyw ynddo



Rhaid i landlordiaid wneud yn siŵr bod eich cartref yn ffit i fyw ynddo.

Er enghraifft rhaid i'r landlord:



- gosod larwm tân
- gosod larwm **carbon monocsid**



- gwneud yn siŵr bod y trydan yn ddiogel.



Nwy gwenwynig ydy **carbon monocsid** ac mae'n gallu gollwng i mewn i'ch cartref. Er enghraifft os nad ydy eich boiler nwy yn cael ei chynnal yn dda.



Os nad ydy eich crtref yn ffit i fyw ynddo, does dim rhaid i chi dalu’r rhent yn ystod yr amser hynny.

## Rhybudd i adael



Rhaid i’ch landlord roi rhybudd i chi os ydyn nhw eisiau i chi adael.




Rhybudd ydy ffurflen ysgrifenedig sydd yn dweud wrthych chi beth ddylech chi ei wneud, ac erbyn pryd.




Lle dydych chi ddim wedi gwneud dim byd o’i le, rhaid i’ch landlord roi rhybudd o **6 mis** i chi os ydyn nhw eisiau i chi adael.

## Gwaith trwsio



Dydy eich landlord ddim yn gallu dweud wrthych chi i adael dim ond oherwydd  eich bod wedi cwyno bod angen gwaith trwsio yn eich cartref.

## Deiliaid contract ar y cyd



Rydych chi'n gallu gofyn i'ch landlord ychwanegu rhywun rydych chi eisiau byw gyda nhw at eich contract. Does dim rhaid i chi ddechrau contract newydd i wneud hyn.

## Rhoi eich cartref i rywun arall



Rydych chi'n gallu rhoi eich cartref i rywun arall i barhau i fyw ynddo. Mae eich cartref yn gallu cael ei basio ymlaen ddwywaith nawr – efallai i'ch partner ac yna i'ch plant sydd yn oedolion.

## Tai gyda Chymorth



Os ydych chi'n byw mewn tai gyda chymorth am fwy na 6 mis, mae gennych chi hawl i gael **contract safonol gyda chymorth**.



Mae tai gyda chymorth yn meddwl bod eich landlord yn rhoi gwasanaethau ychwanegol i chi – er enghraifft help i ddod oddi ar gyffuriau neu alcohol.




Mae'r **contract safonol gyda chymorth** fel **contract safonol**. ond efallai bod eich landlord yn gwneud pethau fel:



- Gallu eich symud oi fewn yr adeilad os oes angen.
- Pan rydych chi wedi gwneud rhywbeth difrifol o'i le mae'r landlord yn gallu gofyn i chi gadw i ffwrdd o'ch cartref am hyd at 48 awr. Ddylai hyn ddim digwydd yn fwy na 3 gwaith mewn 6 mis.




Am ragor o wybodaeth am y newidiadau i'r deddfau tai rydych chi'n gallu darllen y ddogfen ganllaw Beth mae Rhentu Cartrefi yn ei olygu i Denantiaid: llyw.cymru/tenantiaid-mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi

# Geiriau anodd

## Carbon monocsid

Nwy hynod o wenwynig ydy carbon monocsid (CO). Mae CO yn gallu lladd ac mae'n arbennig o beryglus oherwydd dydych chi ddim yn gallu ei weld na'i arogli.